



Adran Y Gyfraith
a Throsedddeg

Astudiaethau uwchraddedig mewn

Cyfraith a Throsedddeg

Cynnwys

Croeso	t.1
Pam astudio'r Gyfraith yn Aberystwyth?	t.4
Pam astudio Troseddeg yn Aberystwyth?	t.4
Ein cyrsiau	t.6
Graddau ymchwil	t.13
Ein hymchwil	t.14
Cyflogadwyedd	t.16
Proffiliau myfyrwyr	t.17

Gwybodaeth bwysig

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir yn y llyfryn hwn am y rhaglenni gradd yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w argraffu (Tachwedd 2022), ond gellid ei newid. Cyn gwneud cais, rydym yn cynghori darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs gan gynnwys ein gofynion mynediad, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.

Croeso

Dysgwyd y Gyfraith yn Aberystwyth ers 1901. Mae gan yr Adran draddodiad balch o ysgolheictod ac ymchwil ac mae hi wedi paratoi cenedlaethau o bobl o bob cwr o'r byd am yrfaedd proffesiynol a bywyd yn gyffredinol. Mae rhai o gyfreithwyr, gwleidyddion ac ysgolheigion mwyaf nodedig Cymru, Prydain a'r tu hwnt wedi astudio yma.

Bu'n Adran ddeinamig a blaengar erioed, ac mae ychwanegu Troseddeg at ein rhengoedd wedi ein rhoi mewn sefyllfa i sefydlu Adran y Gyfraith a Throseddeg lewyrchus yn yr oes sydd ohoni, ar gampws Penglais y Brifysgol, daflad carreg o fae trawiadol Ceredigion.

Astudiwch yma a byddwch yn profi amgylchedd cefnogol fydd yn eich ysgogi ac a fydd yn rhoi boddhad i chi mewn adran a chanddi hunaniaeth benodol, profiad helaeth, addysgu rhagorol a gweithgarwch ymchwil deinamig, heb sôn am gefnogaeth llyfrgell a darpariaeth TG ardderchog.

Yn fwy na dm, byddwch yn cael eich dysgu a'ch arwain gan gymuned o ysgolheigion fydd yn canolbwyntio'n bennaf ar eich cynorthwyo i lwyddo a gwireddu eich potensial. Nid trwy ddamwain y dyfarnwyd Prifysgol y Flwyddyn am ansawdd ei dysgu i Brifysgol Aberystwyth am ddwy flynedd yn olynol (Canllaw Prifysgolion Da, The Times a Sunday Times 2018 a 2019) ac fe'i hanrhydeddwyd â theitl Prifysgol y Flwyddyn yng Nghymru yng Nghannllaw Prifysgolion Da, The Times a Sunday Times.

Yn ogystal ag ansawdd dysgu eithriadol, mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig profiad myfyriwr sy'n cael ei barchu'n fawr gan ei myfyrwyr. Am dair blynedd, gosodwyd y Brifysgol yn y safle uchaf yng Nghymru a Lloegr am fodlonrwydd myfyrwyr. Rydym yn cynnig graddau uwchraddedig a ddysgir ym meysydd Hawliau Dynol a Chyfraith Ddyngarol, Cyfraith Busnes Ryngwladol, Troseddeg a Chyfiawnder Droseddol, Cyfiawnder Ieuenctid a hefyd graddau MPhil ac LLM a Doethuriaeth fel cyfleoedd i wneud ymchwil.

Mae pob un o'n cynlluniau gradd yn y gyfraith yn cynnig sylfaen dda ar gyfer ymarfer y gyfraith. Maent yn raddau cymhwysol yn y gyfraith ar gyfer Cwrs Hyfforddiant Proffesiynol y Bar (i'r rhai sy'n bwriadu bod yn fargyfreithwyr) a'r Cwrs Ymarfer Cyfreithiol (i'r rhai sy'n bwriadu bod yn gyfreithwyr). Bydd y graddau hyn yn llwyfan ardderchog i'r rheiny yn eich plith sy'n dymuno paratoi am Arholiad Cymhwys Cyfreithwyr newydd, a bwriadwn gyflwyno cyrsiau israddedig ac uwchraddedig newydd fydd wedi'u hanelu at baratoi myfyrwyr yn drwyadl am y llwybr newydd hwn i gymhwysu yn gyfreithiwr.

A minnau wedi bod yn ymarferydd cyfreithiol ers dros ddeng mlynedd ar hugain, rwy'n deall gwerth meithrin sgiliau a phrofiad ymarferol i fyfyrwyr yn ystod eu cyfnod yn y brifysgol. Yn ogystal â dysgu academaidd rhagorol, mae'r adran yn cynnig llawer o gyfleoedd i chi feithrin sgiliau ymarferol mewn cyd-destun cyfreithiol. Ymhlith y rhain y mae ein Clinig Cyfraith Teulu lle gall myfyrwyr wneud gwaith achos dan gyfarwyddyd cyfreithiwr cymwysedig, ein cymdeithas ymryson weithgar lle gall myfyrwyr feithrin ac ymarfer eu sgiliau eirioli a pharatoi achos, a chyfleoedd i wirfoddoli ar gyfer ein prosiect ymchwil Dewis/Choice sy'n torri tir newydd wrth ganolbwyntio ar fynd i'r afael â phwnc sy'n prysur ddatblygu'n uchel ei broffil, sef cam-drin yr henoed.

Mae diddordebau ac arbenigedd ein staff yn ymwneud ag ystod eang o bynciau. Bydd llawer yn cyfrannu at ddadleuon a gwaith llunio polisi yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, sy'n cynnwys cydweithio â'r Undeb Ewropeaidd, y Cenhedloedd Unedig, Cyngor Ewrop, a llywodraethau a

chorfforaethau canolog a datganoledig. Rhoddir pwyslais cryf ar Hawliau Dynol ac amrywiaeth, a chynigiwn gyrsiau hawliau dynol i israddedigion ac uwchraddedigion fel ei gilydd. Mae materion sy'n ymwneud â rhywedd, diwylliant, iaith, ieuenctid, cyn-filwyr a'u teuluoedd, a henaint yn themâu pwysig yng ngwaith yr adran. Mae cyfraith busnes a masnach hefyd yn elfennau cryf yn ein gwaith dysgu, yn cynnwys cwrs LLM arbenigol mewn Cyfraith Busnes Rhyngwladol.

Gall dewis Prifysgol fod yn brofiad dyrus. Ceir dewis eang, ac nid yw bob amser yn rhywydd i ddewis yr un sy'n iawn i chi. Ar ôl dweud hynny, os oes gennych ddi-ddordeb mewn astudio gradd uwchraddedig yn y Gyfraith neu Droseddeg mewn Prifysgol sefydledig mewn rhan brydferth ac unigryw o'r wlad, gall Aberystwyth gynnig ichi adran ddeinamig a chyfeillgar sy'n canolbwyntio ar ansawdd ei dysgu.

Edrychaf ymlaen at eich croesawu i Aberystwyth.

**Yr Athro Emyr Lewis
Pennaeth Yr Adran**



Pam astudio'r Gyfraith yn Aberystwyth?

Dysgwyd y Gyfraith yn Aberystwyth ers 1901. Mae gan yr Adran draddodiad balch o ysgolheictod ac ymchwil ac mae hi wedi paratoi cenedlaethau o bobl o bob cwr o'r byd am yrfaeoddi proffesiynol a bywyd yn gyffredinol.

O ddechrau eich gradd, byddwch yn elwa o allu manteisio ar ein cysylltiadau hir sefydlog â phobl broffesiynol leol ym maes y gyfraith ac yn cael eich annog i ymwneud â chleientiaid a gwaith achos go-iawn dan arweiniad a gyda chefnogaeth ein tîm academiaidd uchel ei barch. Byddwch yn gallu manteisio hefyd ar adnoddau megis y rhai yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru (un o ddim ond pum llyfrgell hawlfraint yn y DU) y gellir cerdded iddi o'r Adran mewn ychydig funudau.

Pam Aberystwyth?

Mae gennym dros 100 mlynedd o brofiad dysgu, ac rydym yn cyfuno dulliau modern o ddysgu ac yn eich annog i feithrin sgiliau proffesiynol drwy gydol eich gradd. Dyma un o'r rhesymau y dyfarnwyd gwobr Prifysgol y Flwyddyn am Ansawdd y Dysgu i'r Brifysgol ddwy flynedd yn olynol gan Ganllaw Prifysgolion Da y Times a'r Sunday Times (2018 a 2019).

Ar ben hyn, byddwch hefyd yn dysgu oddi wrth ddarlithwyr sy'n adnabyddus yn rhyngwladol ac sy'n cyfrannu at waith ymchwil arloesol. Mae'r gwaith ymchwil a wneir yn yr Adran yn creu amgylchedd dysgu ysgogol ac yn rhoi'r cyfle ichi gyfrannu at ddadleuon ehangach o ran y gyfraith. Byddwch yn elwa hefyd ar ein cysylltiadau cryf â chyn-fyfyrwyr ledled y byd.

Y Clinig Cyfraith Teulu

Mae'r clinig, a oedd ar y rhestr fer ar gyfer 'Gwobr LawWorks Cymru 2018', yn cynnig cyngor cyfreithiol, cyfrinachol am ddim mewn cyfraith teulu a phlant, sy'n faes y gall pobl ei chael hi'n anodd canfod a fforddio gwasanaethau cyfreithiol eraill ynddo. Law yn llaw â hynny, mae'r clinig yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gael profiad gwerthfawr o fywyd go iawn ac i roi'r theori maen nhw wedi'i ddysgu ar waith. Caiff gwaith y clinig ei oruchwylio gan gyfreithiwr profiadol er mwyn sicrhau bod y cyngor cyfreithiol o safon uchel drwyddo draw.

Prosiect Cyswllt Cyfreithiol Cyn-filwyr

Sefydlwyd Cyswllt Cyfreithiol Cyn-filwyr yn 2015 i fynd i'r afael â'r diffyg cyngor cyfreithiol yng Nghymru. Mae'r prosiect yn gwahodd cyfreithwyr a myfyrwyr y gyfraith i helpu cyn-filwyr a'u teuluoedd i dderbyn cyngor cyfreithiol am ddim. Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo cyn-filwyr a'u teuluoedd i ailymuno â chymdeithas drwy ddarparu gwasanaeth cyfeirio cynhwysfawr ar gyfer cyngor cyfreithiol a gwasanaethau cynghori ehangach nad ydynt yn rhai cyfreithiol. Caiff y prosiect ei redeg ledled y wlad ar-lein, dros y ffôn, drwy Skype ac wyneb yn wyneb.



Pam astudio Troseddeg yn Aberystwyth?

Yn 2006, datblygodd yr Adran yn Adran y Gyfraith a Throseddeg wrth ddechrau cyflwyno cynlluniau israddedig mewn troseddeg. Mae'n parhau i fynd o nerth i nerth gyda chymuned israddedig ac ôl-raddedig sy'n ffynnu yn y ddwy ddisgyblaeth. Wedi'i lleoli yng nghalon Canolbarth Cymru ac yn edrych i lawr dros Fae Ceredigion, ceir yn yr Adran gampws hon bopeth fydd ei angen arnoch fel myfyriwr prifysgol, a mwy. Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i astudio troseddeg. P'un a eich bod yn dymuno canolbwyntio ar droseddeg yn gyfan gwbl, neu droseddeg ynghyd ag un o'r pynciau cytras, gan gynnwys y gyfraith, seicoleg a chymdeithaseg, rydych yn siŵr o gael profiad gradd o safon. O astudio troseddeg, byddwch yn datblygu dealltwriaeth o'r agweddau cymdeithasol a phersonol ar droseddeg, dioddefaint ac ymatebion i drais a chyfeiliornedd. Mae ein graddau israddedig yn canolbwyntio'n benodol ar ddeall ymddygiad troseddol, cyfiawnder ieuenctid, plismona ac atal troseddu, a pholisïau, prosesau a systemau cyfiawnder troseddol.

Pam Aberystwyth?

Gan gyrraedd rhagoriaeth o ran eu hymchwil, eu haddysgu a'u hymarfer, mae ein academyddion amlddisgyblaethol yn cynnig profiad myfyriwr o safon ryngwladol. Mae tystiolaeth gan fyfyrwyr yn cadarnhau bod Aberystwyth yn arwain y ffordd fel lle i fanteisio ar y cyfle i fod yn rhan o gymuned ysgolheigaidd ddeinamig sy'n rhoi anghenion ei myfyrwyr o flaen popeth arall.

Fel y dywedodd ein Is-Ganghellor, yr Athro Elizabeth Treasure, "Rydym yn ddigon bach i adnabod ein myfyrwyr fel unigolion ac yn ddigon mawr i feithrin enw da rhyngwladol." Bydd astudio yn Adran y Gyfraith a Throseddeg Prifysgol Aberystwyth yn rhoi'r sylfaen orau i'ch taith broffesiynol, neu'n ei chodi i uchelfannau newydd.


Canolfan Rhywedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Oed

Sefydlwyd y fenter yn 2015, yn ddarparwr gwasanaeth (y cyntaf o'i fath) ac yn ganolfan ymchwil sy'n canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â thrais yn y cartref yn erbyn pobl hŷn ac anneuaid. Gan ganolbwyntio ar ymchwil weithgar a chyfranogol, mae'r Ganolfan Rhywedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Oed yn unigryw wrth gyfuno darparu gwasanaeth â phrosiect ymchwil. Roedd ein hymchwil wedi amlygu'r angen am hyfforddiant arbenigol i sefydliadau er mwyn iddynt allu adnabod cynnydd, natur a chymhlethdod trais yn y cartref sy'n digwydd yn hwyrach mewn bywyd. Mae llawer o'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi ei ddisgrifo fel rhywbeth sy'n gallu achub bywydau. Mae'r Adran yn gweithio'n agos â'r fenter hon, gan gynnig cyfleoedd i fyfyrwyr wirfoddoli a hyfforddi, ac mae llawer o'n myfyrwyr wedi elwa o'r cyfleoedd hyn.

Eich dyfodol - Cyflogadwyedd

Mae Adran y Gyfraith a Throseddeg yn rhoi cyflogadwyedd wrth wraidd y cwricwlwm, ac mae ein myfyrwyr yn meithrin sgiliau a gwybodaeth sy'n hanfodol ar gyfer y gweithle drwy gydol eu cynllun gradd. Rydym yn gweithio'n agos â'n Gwasanaeth Gyrfaoedd, sy'n cefnogi ein myfyrwyr i adnabod eu meysydd diddordeb ac i wneud y mwyaf o'u potensial. Ein nod yw paratoi myfyrwyr ar gyfer amrywiaeth eang o yrfaoedd proffesiynol, astudiaethau pellach a bywyd yn gyffredinol. Gall myfyrwyr sy'n dymuno cael profiad gwaith fanteisio ar un o'r modiwlau ar leoliad ac ennill credydau tuag at eu gradd.

Bydd gradd uwchraddedig mewn Troseddeg yn cynnig ystod o gyfleoedd gyrfa. P'un yr ydych yn dymuno gweithio fel ymarferydd yn y system cyfiawnder troseddol neu'n meddwl y byddai gyrfa ym maes ymchwil neu lunio polisi yn gweddu'n well i chi, bydd astudio gyda ni yn golygu y byddwch yn gallu dechrau rhoi ar waith hanfodion yr hyn rydych chi wedi ei ddysgu ar eich cwrs gradd.



Ein Cyrsiau

Graddau a ddysgir a Dysgu o Bell

Cyfiawnder Ieuencid, MSc	t.5
Cyfraith Fasnachol Ryngwladol, LLM	t.6
Hawliau Dynol a Chyfraith Ddyngarol, LLM	t.7
Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol, MA, MSc	t.8
Y Gyfraith, LLM	t.9

Graddau ymchwil

LLM, MPhil, PhD, DProf	t.11
------------------------	------

Cyfiawnder Ieuencid

MSc

Mae MSc Cyfiawnder Ieuencid yn cynnig cyfle unigryw i astudio'r system cyfiawnder ieuencid yng Nghymru a Lloegr. Byddwch yn dilyn safbwynt pendant a beirniadol wrth astudio materion sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr ac yn cael cymorth i ddod yn ymchwilydd ac ysgrifennwr annibynnol ym maes cyfiawnder ieuencid.

Wrth ystyried yr ymchwil beirniadol presennol sy'n dod i'r amlwg ym maes cyfiawnder ieuencid, byddwch yn datblygu dealltwriaeth soffistigedig o'r polisiau a'r deddfwriaethau presennol a'u datblygiad hanesyddol. Byddwch yn edrych ar y sefyllfa bresennol a'r newidiadau sy'n datblygu'n gyflym i gysyniadau ynglŷn â 'phlant' a'r ffordd y maent yn cael eu trin o fewn a thu hwnt i systemau presennol. Byddwch hefyd yn cael cyfle i gymryd rhan mewn dadansoddiad cymharol o'r dulliau a ddefnyddir mewn awdurdodaethau eraill er mwyn rhoi beirniadaeth bellach o'r darlun presennol a'r darlun sy'n datblygu yng Nghymru ac yn Lloegr, a gwerthuso effaith ymchwil ar ymarfer ac ar bolisiau.

Dyma rai o'r profiadau sydd ar gael i fyfyrwyr Cyfiawnder Ieuencid yn Aberystwyth:


- ystod eang o fodiwlau ar bynciau'r gyfraith a throseddeg
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr brwdfrydig, nifer ohonynt yn enwog ym maes eu harbenigedd.


Cyflogadwyedd


Bydd y rhai sy'n graddio yn y cynllun hwn yn gadael gyda'r wybodaeth a'r gallu proffesiynol i ymarfer, ystyried, adolygu a datblygu ar arbenigedd a barn ddisgyblaethol yn annibynnol. Byddwch hefyd yn datblygu arferion gwaith moesegol, sgiliau dadansoddi beirniadol, sgiliau ymchwil a sgiliau cyflwyno a fydd yn eich galluogi i rannu eich arbenigedd troseddegol dan amgylchiadau academaidd a phroffesiynol.

Mae cyfleoedd gyrfa i raddedigion yn cynnwys (ymhlith gyrfaeod eraill) adrannau yn y llywodraeth ac asiantaethau cyfiawnder troseddol, sefydliadau gwirfoddol/sefydliadau anllywodraethol ym maes troseddu a chyfiawnder, sefydliadau rhyngwladol megis y Cenhedloedd Unedig a gwaith ymchwil ac academaidd.

Ffeithiau Allweddol

 Math o radd: MSc.

 Cod y cwrs: M985.

 Hyd: 1 flwyddyn (llawn-amser) neu 2 mlynedd (rhan-amser).

Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Critical Youth Justice
- International Comparative Youth Justice
- Principles of Research Design
- Qualitative Data Collection and Analysis.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Arts, Antiques and Heritage Crime Around the World
- Criminological Theory and Perspectives
- International Criminal Law
- International Environmental Law
- Understanding and Investigating Serious Crime
- International Perspectives of Green Criminology
- Law and Gender
- Migration and Asylum Law
- Miscarriages of Justice
- Philosophy and Sociology of Human Rights Protection.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

Cyfraith Fasnachol Ryngwladol

LLM

Mae'r radd hon yn cynnig gradd academaidd gadarn a phroffesiynol, a fydd yn gosod sylfaen gadarn yn y farchnad fyd-eang bresennol.

Erbyn i chi gwblhau'r cwrs hwn, byddwch yn meddu ar wybodaeth broffesiynol am gyfraith fusnes ryngwladol a fydd yn adlewyrchu'r amgylchedd newidiol a realiti'r economi fyd-eang bresennol. Ar y cwrs hwn, rydym yn darparu'r sgiliau a'r wybodaeth fyddai eu hangen arnoch mewn unrhyw yrfa lefel uchel mewn amgylchedd cyfreithiol, p'un a ydyw mewn cwmni cyfreithiol rhyngwladol, sefydliad llywodraethol neu gwmni preifat.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Cyfraith Fasnachol Ryngwladol yn Aberystwyth:

- astudio cyfuniad o gyfraith fasnachol a chyfraith TG
- pwyslais ar sawl agwedd reoleiddiol ar weithgarwch masnachol byd-eang
- archwilio'r gorgyffwrdd rhwng cyfraith fasnachol a hawliau dynol.

Cyflogadwyedd

Trwy gyfuno agweddau damcaniaethol ac ymarferol, mae cynnwys y cwrs hwn yn cwmpasu meysydd twf y dyfodol yn ogystal â phynciau a sgiliau sy'n draddodiadol bwysig. Mae'r cwrs hefyd yn anelu i roi gwybodaeth ynglŷn â rheolau cyfreithiol sy'n berthnasol i faes busnes gan roi pwyslais ar oblygiadau ymarferol y rheolau a'r cyd-destun economaidd a gwleidyddol y deilliodd y rheolau ohonynt.

Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y byddwch o bosibl yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Legal Studies
- Dissertation.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Aspects of Commercial Contracting
- International Commercial Law
- International Criminal Law
- International Environmental Law
- International Human Rights Law
- International Humanitarian Law
- International Trade Law
- Law and Gender
- Migration and Asylum Law
- Negotiated Study Module
- Philosophy and Sociology of Human Rights Protection.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

Ffeithiau Allweddol



Math o radd: LLM.



Cod y cwrs: M190, M190D (Distance learning).



Hyd: 1 flwyddyn (llawn-amser) neu 2 mlynedd (rhan-amser) neu 2-5 blynedd (dysgu o bell).

Hawliau Dynol a Chyfraith Ddyngarol

LLM

Mae'r radd hon yn cynnig cyfle i ymgysylltu â dwy ddisgyblaeth unigryw sy'n cyd-fynd â'i gilydd sef cyfraith hawliau dynol a chyfraith ddyngarol, ac i astudio maes o'r gyfraith sydd ag arwyddocâd cyfoes heddiw a pherthnasedd ymarferol.

Drwy astudio'r cwrs hwn, byddwch yn ymdrin â phynciau traddodiadol ynghyd â materion newydd sy'n dod i'r amlwg, megis rheoleiddio cymdeithas ryngwladol a mecanweithiau cyfreithiol hawliau dynol yn ystod gwrthdaro arfog sy'n rhyngwladol neu nad yw'n rhyngwladol. Bydd eich astudiaeth yn adlewyrchu elfennau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol y pwnc cymhleth hwn.

Mae'r cwrs hwn yn cydbwysu'r academaidd gyda'r ymarferol a'r brys - er enghraifft, cyfuno manylion deddfwriaeth hawliau dynol sy'n angenrheidiol gynhwysfawr mewn gwrthdaro, gyda realiti cras y bygythiadau i hawliau dynol a'r gwrthdaro a'r tensiynau yn y system diogelu hawliau dynol.

Dyma rai o'r profiadau sydd ar gael i fyfyrwyr Hawliau Dynol a Chyfraith Ddyngarol yn Aberystwyth:

- arbenigedd cryf mewn hawliau dynol
- ystod eang o fodiwlau ar bynciau hawliau dynol a chyfraith ddyngarol
- cymysgedd o astudio ymarferol a damcaniaethol.

Cyflogadwyedd

Bydd y cwrs hwn yn un arbennig o ddeniadol i rai sy'n ystyried gyrfa mewn adrannau llywodraeth, melinau trafod, mudiadau rhyngwladol, eirioli dyngarol a hawliau dynol, sefydliadau busnes, cwmnïau cyfreithiol rhyngwladol, a phob math o gyrff anllywodraethol.

Modiwlau

Ar y cwrs yma, byddwch yn astudio'r modiwlau canlynol:

- Legal Studies
- Dissertation.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Aspects of Commercial Contracting
- International Commercial Law
- International Criminal Law
- International Environmental Law
- International Human Rights Law
- International Humanitarian Law
- International Trade Law
- Law and Gender
- Migration and Asylum Law
- Negotiated Study Module
- Philosophy and Sociology of Human Rights Protection.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am y modiwlau, ewch i'n gwefan.

Ffeithiau Allweddol



Math o radd: LLM.



Cod y cwrs: M198, M198D (Distance learning).



Hyd: 1 flwyddyn (llawn-amser) neu 2 mlynedd (rhan-amser) neu 2-5 blynedd (dysgu o bell).

Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol

MA, MSc

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig dwy radd Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol ar lefel Meistr – MA ac MSc. Bydd y ddau lwybr yn rhoi ichi sgiliau cynllunio ymchwil sylfaenol a dealltwriaeth feirniadol o sylfeini damcaniaethol ymchwil a sut y'i defnyddir ym meysydd Troseddeg a'r Gyfraith.

Mae MA Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol yn edrych ar droseddeg a meysydd pynciau cysylltiedig o safbwynt llenyddol. Bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth drylwyr i chi o ystod eang o feysydd cyfoes cysylltiedig â throseddeg, gan gynnwys polisiau ac arferion chyfiawnder troseddol. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth feirniadol o ddamcaniaethau pwysicaf ymddygiad troseddol, yn asesu eu perthnasedd yn y cyfnod hwn a dadansoddi eu goblygiadau ar gyfer rheoli troseddau. Mae'r MA yn arbennig o addas i fyfyrwyr nad oes ganddynt gefndir yn y gwyddorau cymdeithasol, ond bydd hefyd yn gyfle i raddedigion troseddeg neu fyfyrwyr o ddisgyblaethau cysylltiedig gyfoethogi a datblygu eu haddysg yn y maes.

Mae MSc Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol yn rhoi cyfle i chi ddatblygu dealltwriaeth ddadansoddol uwch o ddamcaniaeth droseddegol a phrosesau a chanlyniadau chyfiawnder troseddol. Mae'n hybu ac yn cynyddu ymwybyddiaeth feirniadol o ddulliau ymchwil y gwyddorau cymdeithasol a'r sgiliau a ddefnyddir i wneud gwaith ymchwil ar droseddu, anhrefn a mynd yn groes i'r normau cymdeithasol yn y byd go iawn. Mae'r MSc yn rhaglen gyffrous a heriol sy'n golygu dysgu dwys mewn grwpiau bychan. Caiff grwpiau eu goruchwyllo gan arbenigwyr yn y pwnc a'r maes. Mae'r rhaglen yn addas i raddedigion troseddeg neu i fyfyrwyr o ddisgyblaeth gysylltiedig.

Cyflogadwyedd

Bydd y rhai sy'n graddio yn y cynllun hwn yn gadael gyda'r wybodaeth a'r gallu proffesiynol i ymarfer, ystyried, adolygu a datblygu ar arbenigedd a barn ddisgyblaethol yn annibynnol. Byddwch hefyd yn datblygu arferion gwaith moesegol, sgiliau dadansoddi beirniadol, sgiliau ymchwil a sgiliau cyflwyno a fydd yn eich galluogi i rannu eich arbenigedd troseddegol dan amgylchiadau academaidd a phroffesiynol. Mae cyfleoedd gyrfa i raddedigion yn cynnwys (ymhlith gyrfaedd eraill) adrannau yn y llywodraeth ac asiantaethau chyfiawnder troseddol, sefydliadau gwirfoddol/ sefydliadau anllywodraethol ym maes troseddu a chyfiawnder, sefydliadau rhyngwladol megis y Cenhedloedd Unedig a gwaith ymchwil ac academaidd.

Modiwlau

Bydd myfyrwyr ar y cwrs MA a'r cwrs MSc yn astudio Principles of Research Design fel modiwl craidd ynghyd ag eraill (yn dibynnu ar y llwybr a ddewisir).

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys (yn dibynnu ar y llwybr a ddewisir):

- Arts, Antiques and Heritage Crime Around the World
- Criminological Theory and Perspectives
- Critical Youth Justice
- International Comparative Youth Justice
- International Criminal Law
- International Environmental Law
- International Perspectives of Green Criminology
- Law and Gender
- Migration and Asylum Law
- Miscarriages of Justice
- Philosophy and Sociology of Human Rights Protection
- Understanding and Investigating Serious Crime.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

Ffeithiau Allweddol



Math o radd: MA, MSc.



Cod y cwrs: M984 (MA), M983 (MSc).



Hyd: 1 flwyddyn (llawn-amser) neu 2 mlynedd (rhan-amser).

Y Gyfraith

LLM

Ar ôl graddio gyda'r radd hon, byddwch yn meddu ar lefel drawiadol o arbenigedd yn y datblygiadau diweddaraf mewn ystod o arbenigeddau cyfraith.

Bydd y cwrs hwn yn eich galluogi i deilwra eich astudiaeth o'r gyfraith yn llwyr i weddu i'ch anghenion a'ch diddordebau, a chyfarwyddo eich astudiaeth eich hun gydag ystod eang o opsiynau, gan ddewis meysydd o'r gyfraith megis yr amgylchedd, hawliau dynol, busnes rhyngwladol, masnachu a thechnoleg.

Byddwch yn cael sylfaen drylwyr ar arfer a damcaniaeth y gyfraith, i'ch paratoi ar gyfer galwadau heriol gweithleoedd y gyfraith heddiw. Cydbwysir astudiaeth o ddamcaniaeth gyfreithiol gydag ymchwil i ystod o astudiaethau achos diddorol i daflu goleuni ar eich astudiaethau, a'ch cysylltu â phrofiadau go iawn o achosion cyfreithiol.

Dyma rai o'r profiadau sydd ar gael i fyfyrwyr y Gyfraith yn Aberystwyth:

- ystod eang o bynciau ym maes cyfraith fasnachol a TG, cyfraith amgylcheddol a hawliau dynol a chyfraith ddyngarol
- pwyslais rhyngwladol cryf
- darlithwyr brwd, llawer ohonynt yn adnabyddus yn eu meysydd arbenigol.

Cyflogadwyedd

Bydd y cwrs hwn yn ddeniadol i rai sydd eisiau gwella eu rhagolygon gyrfa ac a fydd yn chwilio am waith yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys sefydliadau llywodraethol trawswladol, rhanbarthol, rhyngwladol a chyrff anllywodraethol, yn ogystal â'r sectorau preifat, yn enwedig cwmnïau masnachol neu dechnolegol.

Ffeithiau Allweddol



Math o radd: LLM.



Cod y cwrs: M172, M172D (Distance learning).



Hyd: 1 flwyddyn (llawn-amser) neu 2 mlynedd (rhan-amser) neu 2-5 blynedd (dysgu o bell).



Graddau ymchwil

MPhil, LLM drwy ymchwil

Cyrsiau blwyddyn yw'r MPhil a'r LLM, lle bydd disgwyl i chi ysgrifennu traethawd hir oddeutu 50,000-60,000 o eiriau.

Byddwch yn gweithio o dan gyfarwyddyd un goruchwylydd neu fwy, ond nid oes gofyn i chi fynychu dosbarthiadau. Ar ôl y flwyddyn yn Aberystwyth, bydd gennych hyd at ddwy flynedd i gofnodi'ch ymchwil. Mae astudio rhan-amser yn bosibl hefyd.

Mae astudio am Radd Meistr Ymchwil yn cynnig llawer o'r atyniadau sy'n denu pobl i astudio am PhD. Dylai traethawd hir gradd Meistr ddarparu trosolwg a chrynodeb manwl o unrhyw faes yn y gyfraith, ond nid ei fwiad yw darparu dadansoddiad manwl yn yr un ffordd â PhD. Prif fantais y radd Meistr Ymchwil, felly, yw ei bod yn eich galluogi i gwblhau darn o ymchwil a chael cymhwyster amdano mewn cyfnod cymharol fyr.

PhD

Dyfernir PhD ar ôl cwblhau traethawd hir boddhaol oddeutu 80-100,000 o eiriau, gydag arholiad viva voce i ddilyn. Y cyfnod cofrestru arferol yw tair blynedd (amser llawn), a disgwylir y bydd y traethawd hir yn cael ei gyflwyno ymhen pedair blynedd o gofrestru.

Treulir rhan o'r flwyddyn gyntaf yn cyflawni hyfforddiant ymchwil, gan adael yr ail a'r drydedd flwyddyn ar gyfer ymchwil amser llawn i'r pwnc o'ch dewis. Mae PhD yn eich galluogi i arbenigo yn y pwnc o'ch dewis, ac i archwilio cymhlethdodau'ch pwnc, boed hynny yn y gyfraith neu droseddeg, mewn cyd-destun. Er mwyn bodloni'r arholwyr, mae'n rhaid i chi ddangos gwreiddioldeb meddwl ynghyd â dadansoddiad manwl.

Ystyrir PhD fel cam sylweddol mewn gyrfaedd academaidd neu yrfaedd sy'n ymwneud â'r byd academaidd. Mae'n dangos eich bod yn gallu cyflawni ymchwil manwl a chyflwyno canlyniadau'r ymchwil hwnnw mewn ffordd ddealladwy.

DProf

Mae'r ddoethuriaeth broffesiynol, neu DProf, yn fwy addas i'r rheiny sy'n dilyn gyrfa broffesiynol yn hytrach nag un academaidd, ac fe'i chynllunir i ganiatáu i unigolion proffesiynol cymwys astudio am ddoethuriaeth tra'n dal i weithio.

Dyfernir DProf i gydnabod bod unigolyn wedi cwblhau rhaglen o astudio cydnabyddedig a ddysgir yn llwyddiannus, ynghyd â darn o waith ymchwil uwch. Mae'r elfen o gydweithio a geir yn y prosiect ymchwil sy'n seiledig ar waith yn gyfle gwych i sefydlu gwybodaeth newydd yn y gweithle ac i sicrhau bod eich ymchwil yn berthnasol i ddiwydiant.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

Ein hymchwil

Mae gennym amrywiaeth fawr o arbenigedd ymchwil ym meysydd y gyfraith a throsedddeg. Mae'r pynciau yr ydym yn canolbwyntio arnyn nhw'n cynnwys pobl sy'n cael eu gwthio i'r cyrion oherwydd eu hoedran (yn ifanc neu'n hen), hawliau dynol, mudo, y gyfraith a rhywedd, cyfraith ryngwladol, cyfiawnder ieuencid, plismona, damcaniaeth gyfreithiol, cyfraith fasnachol, cyfraith gyfansoddiadol, datganoli a chyfansoddiad newidiol y Deyrnas Unedig. Rydym wedi denu swm sylweddol o gyllid allanol yn y blynyddoedd diweddar, gan gynnwys £1,500,000 i Ganolfan Oedran, Rhywedd a Chyfiawnder Cymdeithasol, a £500,000 ar gyfer ymchwil i allu cyn-filwyr a'u teuluoedd i gyrchu cyfiawnder.



Mae tri aelod o staff wedi ennill Gwobrau Crwsibl Cymru yn y blynyddoedd diweddar - gwobrau sydd yn targedu ymchwilwyr sydd ar ddechrau neu yng nghanol eu gyrfa ac sy'n cynnig y cyfle iddyn nhw ddatblygu eu potensial fel arweinwyr ym maes ymchwil. Mae tua 30 o fyfyrwyr doethuriaeth yn yr adran ar hyn o bryd - llawer ohonynt o dramor.

Mae ein staff yn cyfrannu'n sylweddol i'r sylfaen ymchwil ym meysydd y Gyfraith a Throsedddeg. Mae cyfranogiad o'r fath yn cynnwys darparu arbenigedd pwnc a gwaith sy'n cyfrannu at ddatblygu isadeiledd academiaidd a phroffesiynol, rhwydweithio, a gweithgareddau sy'n cael effaith sylweddol. Bu hefyd gyfranogiadau ar lefel genedlaethol, y DU ac yn rhyngwladol i ganoli a gwerthuso, rhoi darlithoedd, arholi allanol, datblygu prosiectau ar y cyd, cynghori ar bolisi ymchwil, yn ogystal â chymryd rhan a threfnu cynadleddau a chyfarfodydd ymchwil.

Rydym wedi bod yn gysylltiedig ag agweddau ar ddatganoli yng Nghymru yn rheolaidd, gan gyfrannu tystiolaeth arbenigol ar lafar i'r Comisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru, y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru a Phwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfu Senedd Cymru. Bu aelodau o staff ar baneli o arbenigwyr academiaidd oedd yn delio â gosodiadau Wales Act 2017 a gynullwyd gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru a Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Mae ein staff wedi cynghori'n genedlaethol ac yn rhyngwladol ar bolisi a safonau ymchwil (gan gynnwys i'r AHRC Peer Review College; yr ESRC a Grŵp Ymgynghori ar Ymchwil Cyfiawnder; Gweinyddiaeth Amddiffyn yr Eidal, Canolfan Wyddoniaeth Genedlaethol Gwlad Pwyl, Cyngor Ymchwil Awstria, Cronfa Ymchwil Wyddonol (Gwlad Belg) a Chyngor Ymchwil Awstralia). Mae ymgysylltu â'r sector proffesiynol o ran gwneud ymchwil ac adrodd arno yn rhan sefydledig o'n gweithgarwch, ac mae'n ymestyn ein dylanwad ar lefel unigolyn a sefydliad.

Mae staff ymchwil yn defnyddio'u harbenigedd yn aelodau o gyrff cynghori yn y sector cyhoeddus ac yn rhyngwladol, gan gynnwys Pwyllgor Ymgynghorol Cymreig Comisiwn y Gyfraith, Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol Cymru, Grŵp Arbenigwyr Cyngor Ewrop ar weithredu yn erbyn masnachu mewn pobl (GRETA); a'r Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru.

Yn ogystal, bu ymgysylltu gweithredol â sefydliadau cymdeithas sifil, cyrff cyhoeddus a sefydliadau rhyngwladol ar ffurf adroddiadau a rhoi barn, a thrwy gydweithio yn rhyngwladol a datblygu cyfraith a pholisi. Mae esiamplau yn cynnwys gweithio gyda'r Sefydliad Rhyngwladol ar Gyfraith Ddyngarol ac OIDEI - Geneva; Age International, Cyngor

Ewrop, y Sefydliad dros Ddiogelwch a Chydweithio yn Ewrop, Senedd Ewrop, Dirprwyaeth Astudiaethau Mudo-Sweden, y Sefydliad Rhyngwladol ar Fudo, Uwch Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig ar Ffoaduriaid, y Ganolfan Ryngwladol dros Ddatblygu Polisi Mudo, Sefydliad Rhyngwladol Cyfraith Ddyngarol, Sefydliad Prydeinig Cyfraith Ryngwladol a Chymharol; Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Bu staff yn ymgysylltu'n helaeth ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymestyn allan. Dyma rai enghreifftiau o'r pethau y bu ein staff yn ymwneud â nhw, yn ychwanegol at y rhai uchod:

- cymryd rhan mewn prosiect ar y cyd gyda Chanolfan Llywodraethiant Cymru yng Nghaerdydd a'r Constitution Unit yng ngholeg prifysgol Llundain (UCL) a arweiniodd at ddau bapur a oedd yn ddylanwadol wrth baratoi'r ffordd i sefydlu model ddatganoli cadw pwerau i Gymru (Delivering a Reserved Powers Model of Devolution for Wales (2015) and Challenge and Opportunity: the Draft Wales Bill 2015 (2016))
- gweithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Abertawe, a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid yng Ngwynedd a Mynwy
- gweithio gyda Ymddiriedolaeth Genedlaethol Gwasanaethau Dinasyddion
- cydweithio â'r corff Pobl a Gwaith ar y rhaglen Invest Local by Building communities Trust
- darparu hyfforddiant i weithwyr camdrin domestig arbenigol ar ran Safe Lives
- mentora ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa sy'n gweithio ym maes cyfraith ffoaduriaid o dan gynllun a reolir gan y Refugee Law Initiative ym Mhrifysgol Llundain
- mentora ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa o dan un o fentrau Cymdeithas Ddysgedig Cymru
- darparu sesiynau hyfforddi i farnwyr Tribiwnlys yr Iaith Gymraeg
- darparu sesiynau hyfforddi ar fasnachu mewn pobl i weithwyr proffesiynol priodol, a hynny ledled Ewrop (barnwyr, erlynwyr, yr heddlu, adfocadau, sefydliadau anllywodraethol).

Cyflogadwyedd

Rhagolygon gyrfa

Bydd astudio un o'n graddau uwchraddedig yn gyfle ichi ehangu eich gwybodaeth arbenigol am y gyfraith, troseddeg a chyfiawnder troseddol. P'un a ydych yn dymuno gweithio yn y sector cyhoeddus neu breifat, mewn maes benodol o fewn ymarfer cyfreithiol neu ym maes cyfiawnder troseddol, bydd un o gyrsiau Prifysgol Aberystwyth yn addas ar gyfer eich camau nesaf a'ch gyrfa yn y dyfodol.

Pa bynnag gwrs y byddwch yn penderfynu yw'r un iawn i chi, byddwch yn datblygu sgiliau a fydd yn fuddiol i chi yn eich gyrfa broffesiynol. Ymhlith y rhain mae sgiliau: dadansoddi'n feirniadol, ymchwilio a chyflwyno, trefnu a rheoli prosiectau, datrys problemau, meddwl yn greadigol a'r gallu i gymathu gwybodaeth a syniadau newydd gan ddefnyddio methodoleg gyfreithiol a throseddegol, a gweithio'n effeithiol ag eraill.

Mae llawer o'n graddedigion yn mynd i weithio yn y sector cyfreithiol a chyfiawnder troseddol, tra mae eraill yn mynd i weithio mewn meysydd megis cyllid, llywodraeth, plismona, lobi, gweinyddu cyhoeddus, eiddo tiriog, gweithgynhyrchu ac amddiffyn..

Cyfleoedd eraill i ddatblygu eich gyrfa

Tra byddwch yn astudio gyda ni, cewch ddigon o gyfleoedd i ennill profiad gwaith, ar gynlluniau fel 'Y Clinig Cyfraith Teulu' a'r 'Prosiect Cyswllt Cyfreithiol Cyn-filwyr' - gweler y manylion ar dudalen 2.

Cyfnodolyn Cyfraith a Throseddeg Aberystwyth

Dyma fenter gyffrous arall gyda'r nod o ddarparu llwyfan i arddangos gwaith o'r safon uchaf a gynhyrchwyd gan fyfyrwyr.

Rhesymau i gymryd rhan

"Yn Reolwr-Olygydd bu sawl her a orfododd i mi wella fy sgiliau cyfathrebu ag eraill, cydlynu nifer fawr o bobl a thasgau, rheoli fy amser yn effeithiol, a chyfrannu'n barhaus at wella'r Cyfnodolyn a'r ffordd y caiff ei redeg. Credaf yn gryf fod hyn wedi fy helpu i dyfu'n fyfyrwr ac yn berson mwy cyflawn. Ni fyddwn felly yn oedi cyn annog unigolion penderfynol i ddod yn rhan o dîm y Cyfnodolyn, ac i sicrhau ei fod yn parhau am amser hir i ddod!"

Andy Hall, Rheolwr-Olygydd 2013-15

Sgyrsiau ar gyflogadwyedd a seminarau ymchwil

Mae'r adran hefyd yn cynnig nifer o sgyrsiau ar gyflogadwyedd y gall myfyrwyr uwchraddedig eu mynychu, ac yn trefnu cyfres o seminarau ymchwil wythnosol ar gyfer myfyrwyr ymchwil uwchraddedig lle caiff y myfyrwyr ymchwil eu gwahodd i gyflwyno eu hymchwil unwaith yn ystod bob blwyddyn academiaidd.



Proffiliau Myfyrwyr



Chloe Coleman

Wedi i mi gwblhau fy ngradd israddedig LLB y Gyfraith yn 2020, penderfynais ddychwelyd i Brifysgol Aberystwyth i astudio cwrs meistr mewn Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol. Fe wnes i'r dewis i ddychwelyd i Aberystwyth gan fod yr adran yn cynnig addysgu o safon uchel sy'n cwmpasu ystod eang o fodiwlau diddorol. Mae'r amrywiaeth o bynciau a gynigir gan yr adran yn golygu bod yr addysg yn fwy amrywiol, ac mae hynny'n caniatáu i mi ymwneud â gwahanol agweddau ar y gyfraith. A phrin yw'r rhai sy ddim yn caru astudio mewn prifysgol sy'n edrych i lawr dros y môr!



Sioned Davies

Dechreuais fy astudiaethau ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 2015. Fe wnes i raddio efo gradd BSc (Anrh) mewn Troseddeg cyn cwblhau gradd meistr LLM yn y Gyfraith. Penderfynais barhau i astudio fy noethuriaeth yn Aberystwyth oherwydd ansawdd rhagorol yr addysgu a dderbyniais dros y pedair blynedd flaenorol yn ogystal â safon uchel iawn yr oruchwyliaeth a'r awyrgylch cyfeillgar o fewn yr adran. Mae'r cyfle i gymryd rhan yn y seminarau staff wythnosol ynghyd â chael siawns i gyflwyno fy ymchwil fy hun yn caniatáu i mi ennill profiad amhrisiadwy a derbyn adborth defnyddiol ar fy ngwaith. Byddwn yn annog yn fawr i unrhyw un sydd am barhau eu hastudiaethau i lefel ôl-raddedig i ddewis Aberystwyth fel eu dewis cyntaf.

Adran y Gyfraith a Throsedddeg
Prifysgol Aberystwyth
Adeilad Hugh Owen
Penglais, Aberystwyth
SY23 3DY

+44 (0) 1970 621 537

law@aber.ac.uk

/AberystwythLawandCriminology

@ALSABerUni

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
Marchnata a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2022.

